



## Canllaw ar Drefniadau'r Tribiwnlys

### Cyfeiriad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

---

#### Y Trefniadau y mae Tribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Achos Interim yn eu Dilyn wrth Ystyried Cyfeiriadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

(Dim ond canllaw i'r trefniadau a fydd ar waith yw hwn ac, ar yr amod ei fod yn bodloni gofynion y ddeddfwriaeth berthnasol, gall Llywydd y Panel a/neu Gadeirydd y tribiwnlys perthnasol ei amrywio yn ôl eu disgrisiwn.)

#### Cyflwyniad

1. Mae Panel Dyfarnu Cymru ("y Panel Dyfarnu") yn gorff annibynnol a gafodd ei sefydlu o dan Ran III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ("Deddf 2000"). Rôl y Panel Dyfarnu yw ffurfio tribiwnlysoedd i ystyried a yw aelodau etholedig neu gyfetholedig o gynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol a chymuned, awdurdodau tân ac awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru ("awdurdodau perthnasol") wedi torri cod ymddygiad statudol eu hawdurdod.
2. Mae'r nodyn hwn yn rhoi gwybodaeth am drefniadau tribiwnlysoedd achos a thribiwnlysoedd interim. Bydd tribiwnlys achos yn cael ei sefydlu i ystyried cyfeiriad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ("yr Ombwdsmon") o dan adran 71(3) o'r Ddeddf. Bydd tribiwnlys achos interim yn cael ei sefydlu i ystyried cyfeiriad gan yr Ombwdsmon o dan adran 72(4) o'r Ddeddf. Yn ôl adran 72 o Ddeddf 2000, gall yr Ombwdsmon gyfeirio adroddiad interim at y Panel Dyfarnu cyn iddo gwblhau ymchwiliad, os yw'n teimlo bod angen gwneud hynny er budd y cyhoedd.
3. Mae'r trefniadau yn y nodyn hwn yn cynnwys darpariaethau Rhan III o'r Ddeddf a Rheoliadau Dyfarniadau gan Dribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Achos Interim (Cymru) 2001 (OS 2001 Rhif 2288 (c.176)), fel y'u diwygiwyd.

#### Tribiwnlysoedd Achos

##### Gweithredu Cyn y Gwrandawriad

4. Bydd yr Ombwdsmon yn gwneud cyfeiriad ysgrifenedig i'r Panel Dyfarnu drwy anfon at Lywydd y Panel Dyfarnu yr adroddiad sydd wedi cael ei lunio yn unol ag adran 71 o Ddeddf 2000.

5. Bydd y cyfeiriad yn cynnwys:
  - a. manylion yr achos (rhif cyfeirnod, enw a chyfeiriad y person sy'n destun yr ymchwiliad, enw'r awdurdod perthnasol, enw'r swyddog ymchwilio ac enw a chyfeiriad yr achwynydd gwreiddiol (os yw hynny'n berthnasol));
  - b. cyfrif yr Ombwdsmon o'r ffeithiau a arweiniodd at y cyfeiriad;
  - c. rhesymau'r Ombwdsmon dros pam y gallai'r ffeithiau yn b. uchod gael eu hystyried yn fethiant i gydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod perthnasol.
6. O dan adran 71(6) o'r Ddeddf, mae'n rhaid i'r Ombwdsmon hysbysu'r person sy'n destun yr ymchwiliad a'r person a wnaeth yr honiad am ganlyniad yr ymchwiliad.
7. Bydd Cofrestrydd y Panel Dyfarnu yn cydnabod bod y cyfeiriad wedi dod i law ac yn cofnodi'r manylion yn y gofrestr bwrpasol. Bydd y Cofrestrydd hefyd yn hysbysu'r person sydd wedi'i gyhuddo am y cyfeiriad. Bydd yr hysbysiad yn cynnwys:
  - a. rhif yr achos fel sydd wedi'i gofnodi yn y gofrestr (dyma fydd teitl y dyfarniad);
  - b. y cyfeiriad y dylid ei ddefnyddio i anfon hysbysiadau a gohebiaeth i'r tribiwnlys;
  - c. copi o'r adroddiad ac unrhyw wybodaeth arall sy'n briodol i'r achos, gan gynnwys gywbodaeth am sut i gyflwyno ateb;
  - d. cyfnod o bedair wythnos pan fydd y gwrandawriad, os bydd un, yn cael ei gynnal.
8. Rhaid i'r person sydd wedi'i gyhuddo anfon ymateb ysgrifenedig o fewn 21 diwrnod i'r dyddiad y cafodd yr hysbysiad gan y Cofrestrydd (neu unrhyw ddyddiad hwyrach y mae'r tribiwnlys wedi'i ganiatáu) gan nodi'r canlynol:
  - a. p'un a yw'n bwriadu:
    - (i) mynychu gwrandawriad y tribiwnlys neu gael ei gynrychioli yn y gwrandawriad;
    - (ii) anghytuno â chynnwys yr adroddiad ac, os felly, ar ba sail;
  - b. enw, cyfeiriad a swydd y person a fydd yn ei gynrychioli a ph'un a ddylai dogfennau'r dyfarniad ac ati gael eu hanfon i'r cyfeiriad hwn;
  - c. a yw am i'r gwrandawriad gael ei gynnal yn Gymraeg neu yn Saesneg.
9. Gall y tribiwnlys wneud y dyfarniad heb wrandawriad o dan yr amgylchiadau canlynol:
  - a. os na fydd y Cofrestrydd yn cael ateb gan y person sydd wedi'i gyhuddo o fewn y terfyn amser penodedig neu unrhyw gyfnod ychwanegol a roddwyd gan y tribiwnlys; neu
  - b. os bydd y person sydd wedi'i gyhuddo yn dweud nad yw'n bwriadu mynychu'r gwrandawriad na chael ei gynrychioli ynddo; neu
  - c. nid yw'r person sydd wedi'i gyhuddo yn anghytuno â chynnwys yr adroddiad.

### **Sylwadau Ysgrifenedig**

10. Gall person sydd wedi'i gyhuddo nad yw am fynychu'r gwrandawriad na chael ei gynrychioli ynddo nac anghytuno â chynnwys yr adroddiad, gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r tribiwnlys eu hystyried cyn iddo benderfynu ar yr achos. O dan yr amgylchiadau hyn, ar ôl iddo ystyried papurau'r achos am y tro cyntaf, bydd y tribiwnlys yn anfon rhestr o'r ffeithiau y bydd yn eu hystyried wrth wneud ei

benderfyniad at yr aelod dan sylw. Bydd modd i'r aelod gyflwyno unrhyw sylwadau ysgrifenedig eraill sydd ganddo ar ôl gweld y ffeithiau hyn cyn i'r tribiwnlys gyfarfod.

## **Cyfarwyddiadau i Baratoi ar gyfer Gwrandawriad**

11. Ar unrhyw adeg, gall y tribiwnlys, ar gais person sydd wedi'i gyhuddo neu yn ôl ei ddymuniad ei hun, roi cyfarwyddiadau i alluogi'r person sydd wedi'i gyhuddo i baratoi ar gyfer y gwrandawriad neu helpu'r tribiwnlys i benderfynu'r materion. Dylai unrhyw gais am gyfarwyddiadau gael ei wneud yn ysgrifenedig i'r Cofrestrydd.
12. Gall y tribiwnlys roi cyfarwyddiadau yn ei gwneud hi'n ofynnol i unrhyw berson ddarparu unrhyw fanylion sy'n rhesymol er mwyn gwneud y dyfarniad. Gall y tribiwnlys hefyd roi cyfarwyddiadau yn ei gwneud hi'n ofynnol i unrhyw berson ddarparu unrhyw ddogfen neu ddeunydd arall sydd eu hangen ar y tribiwnlys ac y gall person hwnnw eu cyflwyno.

## **Amrywio neu Wrthod Cyfarwyddiadau**

13. Os cafodd cyfarwyddyd (gan gynnwys unrhyw wysion) ei roi i berson ond na chafodd y person hwnnw gyfle i'w wrthwynebu, gall wneud cais i'r tribiwnlys amrywio neu wrthod y cyfarwyddyd. Ni fydd y tribiwnlys yn gwneud hynny heb iddo, yn gyntaf, hysbysu'r person a wnaeth gais am y cyfarwyddyd ac ystyried unrhyw sylwadau y bydd yn eu gwneud.

## **Gwysio Tystion**

14. Gall y tribiwnlys ofyn i unrhyw berson (heblaw am yr Ombwdsmon neu unrhyw aelod o'i staff) fynychu'r gwrandawriad fel tyst ac ateb unrhyw gwestiynau neu ddarparu unrhyw ddogfennau neu ddeunydd arall sydd yn ei feddiant neu o dan ei reolaeth sy'n ymwneud ag unrhyw fater sy'n berthnasol i'r dyfarniad.
15. Oni bai bod person yn derbyn cyfnod llai o rybudd, bydd unrhyw un sy'n gorfod mynychu gwrandawriad mewn ymateb i wŷs yn cael o leiaf 14 diwrnod o rybudd ynglŷn â'r gwrandawriad.
16. Ni fydd angen i unrhyw un arall, heblaw am berson sydd wedi'i gyhuddo, fynychu gwrandawriad na darparu unrhyw ddogfen mewn ymateb i wŷs, oni bai bod ei dreuliau presenoldeb angenrheidiol yn cael eu talu. Mae treuliau'r tystion hynny sy'n mynychu gwrandawriad heb wŷs yn cael eu talu hefyd.

## **Presenoldeb Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

17. Gall yr Ombwdsmon fynychu gwrandawriad, neu gall tribiwnlys ofyn (ond nid gorchymyn) i'r Ombwdsmon fynychu gwrandawriad er mwyn:
  - Cyflwyno adroddiad yr Ombwdsmon a/neu egluro unrhyw faterion ynddo;
  - Chwarae unrhyw ran arall neu gynorthwyo'r tribiwnlys yn y gwrandawriad fel sy'n briodol ym marn y tribiwnlys.
18. Nid oes yn rhaid i'r Ombwdsmon fynychu gwrandawriad ei hun - gall ddirprwyo aelod neu aelodau o'i staff i fynd ar ei ran gan ddefnyddio pwerau Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005. Gall yr Ombwdsmon gael ei gynrychioli mewn gwrandawriad gan fargyfreithiwr neu gyfreithiwr hefyd.

19. Ni ddylai cais gan driwlynys i'r Ombwdsmon fynychu gwrandawriad gael ei wrthod yn afresymol ac os bydd hynny'n digwydd, rhaid i'r Ombwdsmon roi rhesymau ysgrifenedig.

### **Rôl yr Ombwdsmon mewn Gwrandawriad**

20. Y triwlynys sy'n penderfynu ar rôl yr Ombwdsmon mewn gwrandawriad yn seiliedig ar amgylchiadau'r achos dan sylw. Gall hyn gynnwys:
- Gwneud cyflwyniadau a darparu tystiolaeth i ategu canfyddiadau'r adroddiad;
  - Ymateb i gyflwyniadau neu dystiolaeth a gafodd eu darparu gan yr ymatebydd neu'i gynrychiolydd wrth baratoi ar gyfer y gwrandawriad neu yn ystod y gwrandawriad;
  - Holi'r rhai fydd yn ymddangos gerbron y triwlynys yn ystod y gwrandawriad h.y. yr ymatebydd neu unrhyw dystion;
  - Pan fydd triwlynys yn canfod bod achos o dorri'r cod ymddygiad wedi digwydd, tynnu sylw'r triwlynys at unrhyw ffactorau y dylai eu hystyried wrth benderfynu ar y gosb, fel unrhyw gamweithredu blaenorol neu ffactorau gwaethybol eraill.

### **Presenoldeb a Rôl y Swyddog Monitro**

21. Mae hawl gan swyddog monitro (neu gynrychiolydd) yr awdurdod perthnasol dan sylw i fynychu gwrandawriad y triwlynys, p'un a fydd y gwrandawriad yn breifat ai peidio. Yn ymarferol, bydd y triwlynys yn gofyn i'r swyddog monitro fod yn bresennol ac yn rhoi cyfleoedd iddo ddarparu unrhyw eglurhad neu wybodaeth berthnasol er mwyn cynorthwyo'r triwlynys.

### **Arbenigwyr**

22. Os bydd y triwlynys yn teimlo yr hoffai gael cymorth arbenigwr ar gyfer cwestiwn penodol, gall gwneud trefniadau i berson â chymwysterau addas ymchwilio i'r mater a llunio adroddiad arno ac, os oes angen, fynychu'r gwrandawriad a rhoi tystiolaeth.
23. Bydd pob person sydd wedi'i gyhuddo yn cael copi o adroddiad yr arbenigwr cyn y gwrandawriad neu unrhyw wrandawriad sy'n ailgychwyn.

### **Adolygiad Cyn-gwrandawriad**

24. Os bydd yn ymddangos i'r triwlynys y byddai cynnal adolygiad cyn-gwrandawriad yn ddefnyddiol er mwyn gwneud dyfarniad, gall roi cyfarwyddiadau, ar gais person sydd wedi'i gyhuddo neu yn ôl ei ddymuniad ei hun, i gynnal adolygiad o'r fath. Bydd y Cofrestrydd yn rhoi o leiaf 14 diwrnod o rybudd i bob person sydd wedi'i gyhuddo ynglŷn ag amser a lleoliad yr adolygiad.
25. Bydd yr adolygiad yn cael ei gynnal yn breifat oni bai bod y triwlynys yn gorchymyn fel arall, a gall unrhyw berson sydd wedi'i gyhuddo ymddangos a chael ei gynrychioli gan berson arall.

26. Yn ystod adolygiad:

- a. bydd y tribiwnlys, neu'r Cofrestrydd, yn rhoi'r holl gyfarwyddiadau sydd eu hangen neu sy'n ddymunol i sicrhau bod dyfarniad yn cael ei weinyddu mewn ffordd gyfiawn, gyflym a darbodus;
- b. bydd y tribiwnlys, neu'r Cofrestrydd, yn ceisio sicrhau bod unrhyw berson sydd wedi'i gyhuddo yn gwneud yr holl addefiadau a chytundebau a ddylai gael eu gwneud yn rhesymol mewn perthynas â'r dyfarniad;
- c. gall y tribiwnlys, os bydd pob person sydd wedi'i gyhuddo yn cytuno, wneud y dyfarniad ar sail y dogfennau a'r datganiadau sydd ger ei fron bryd hynny, heb gynnal gwrandawriad arall.

Bydd unrhyw gyfarwyddiadau y bydd y Cofrestrydd yn eu rhoi o dan a. a b. uchod yn cyd-fynd â chyfarwyddiadau'r tribiwnlys a gall y tribiwnlys eu gwrthod neu'u hamrywio yn ôl ei ddymuniad ei hun neu ar gais person sydd wedi'i gyhuddo.

### **Hysbysiad o Leoliad ac Amser Gwrandawriad Tribiwnlys**

27. Bydd y Cofrestrydd yn pennu dyddiad, amser a lleoliad y gwrandawriad a bydd yn hysbysu unrhyw berson sydd wedi'i gyhuddo am drefniadau'r gwrandawriad o leiaf 21 diwrnod cyn y dyddiad hwnnw. Fel arfer, mae'r Panel Dyfarnu yn cynnal gwrandawriadau'r tribiwnlys yn ardal yr awdurdod y mae'r person sydd wedi'i gyhuddo yn aelod ohono os yw hynny'n bosibl. Diben hyn yw ei gwneud hi'n haws i aelodau o'r cyhoedd a phartïon eraill â diddordeb a all fod am arsylwi'r achos fod yn bresennol.
28. Ynghyd â'r hysbysiad ynglŷn â'r gwrandawriad, bydd y manylion canlynol yn cael eu darparu:
  - a. gwybodaeth a chanllawiau ynglŷn â phresenoldeb tystion yn y gwrandawriad, cyflwyno dogfennau a'r hawl i gael eich cynrychioli gan berson arall;
  - b. datganiad yn egluro'r canlyniadau posibl o beidio â mynychu'r gwrandawriad a'r hawl sydd gan bob person sydd wedi'i gyhuddo sydd wedi ymateb ond sy'n penderfynu peidio â mynychu na chael ei gynrychioli, i wneud sylwadau ysgrifenedig.
29. Gall y tribiwnlys ohirio gwrandawriad a bydd y Cofrestrydd yn rhoi o leiaf saith niwrnod o rybudd i'r person sydd wedi'i gyhuddo ynglŷn â hynny.
30. O bryd i'w gilydd, gall y tribiwnlys ohirio gwrandawriad ar ôl iddo gychwyn ac os bydd yn cyhoeddi pryd a ble y bydd y gwrandawriad yn aildddechrau cyn iddo ei ohirio, ni fydd angen rhoi rhagor o rybudd.

### **Hysbysiad Cyhoeddus o Wrandawriadau**

31. Bydd rhestr o'r holl wrandawriadau, gan gynnwys y dyddiad, yr amser a'r lleoliad, ar gael i'r cyhoedd ei gweld yn swyddfeydd Ysgrifenyddiaeth y Panel Dyfarnu, drwy drefniant â'r Cofrestrydd. Bydd manylion yn cael eu cyhoeddi ar wefan Panel Dyfarnu Cymru hefyd.

## **Gwneud Dyfarniad heb Wrandawriad**

32. Os bydd pob person sydd wedi'i gyhuddo yn rhoi caniatâd ysgrifenedig, neu os bydd yr amgylchiadau sy'n cael eu disgrifio ym mharagraff 9 yn gymwys, gall wneud dyfarniad, neu benderfynu ar unrhyw fater penodol, heb wrandawriad.
33. Mae darpariaethau paragraffau 40 (sylwadau ysgrifenedig) a 48 (derbyn tystiolaeth ffeithiol) yn gymwys wrth wneud dyfarniad, neu benderfynu ar unrhyw fater penodol, heb wrandawriad.

## **Grandawriadau Cyhoeddus**

34. Bydd holl wrandawriadau tribiwnlys yn cael eu cynnal yn gyhoeddus oni bai bod y tribiwnlys o'r farn y byddai cyhoeddusrwydd yn amharu ar gyfiawnder neu'n peryglu diogelwch personol unrhyw barti sydd ynghlwm wrth achos.
35. Bydd angen i'r tribiwnlys gael tystiolaeth argyhoeddiadol o niwed sylweddol i'r unigolion sydd ynghlwm wrth y gwrandawriad neu fudd y cyhoedd yn gyffredinol, cyn cynnal gwrandawriad yn breifat. Mewn llawer o achosion, efallai y gall y tribiwnlys ddyfeisio ffyrdd ymarferol o ddiogelu gwybodaeth sensitif neu bobl sy'n agored i niwed drwy, er enghraifft, gymryd tystiolaeth gan dyst sy'n agored i niwed yn breifat neu roi cyfarwyddyd i ddefnyddio ffugenwau.
36. Bydd hawl gan y bobl ganlynol fynychu gwrandawriad p'un a yw'n breifat ai peidio:
  - a. Llywydd ac aelodau Panel Dyfarnu Cymru (p'un a ydynt yn rhan o'r tribiwnlys ar gyfer y gwrandawriad ai peidio);
  - b. yr Ombudsmon neu'i gynrychiolydd;
  - c. swyddog monitro, neu'i gynrychiolydd, yr awdurdod y mae'r person sydd wedi'i gyhuddo yn aelod neu'n aelod cyfetholedig ohono.
37. Gall y tribiwnlys adael i bobl eraill fynychu gwrandawriad sy'n cael ei gynnal yn breifat.
38. Gall y tribiwnlys wahardd o wrandawriad, neu unrhyw ran ohono, unrhyw berson y mae ei ymddygiad wedi amharu ar y gwrandawriad neu sy'n debygol, ym marn y tribiwnlys, o amharu ar y gwrandawriad.

## **Methiant Partïon i Fynychu Gwrandawriad**

39. Os na fydd person sydd wedi'i gyhuddo yn mynychu neu'n cael ei gynrychioli mewn gwrandawriad y mae wedi cael gwybod amdano, gall y tribiwnlys:
  - a. gwneud y dyfarniad yn absenoldeb y person hwnnw, oni bai ei fod yn fodlon bod rheswm da dros yr absenoldeb; neu
  - b. gohirio'r gwrandawriad.
40. Cyn penderfynu y bydd yn gwneud dyfarniad yn absenoldeb person sydd wedi'i gyhuddo, bydd y tribiwnlys yn ystyried unrhyw sylwadau ysgrifenedig a gafodd eu

cyflwyno gan y person hwnnw mewn ymateb i'r hysbysiad o'r gwrandawriad. At y diben hwn, bydd unrhyw ymateb yn cael ei drin fel sylw ysgrifenedig.

41. Os na fydd person sydd wedi'i gyhuddo yn mynychu gwrandawriad, gall y tribiwnlys wneud gorchymyn ynglŷn â chostau a threuliau fel sy'n briodol yn ei farn ef.

## Trefn y Gwrandawriad

42. Bydd tribiwnlys yn cynnwys o leiaf dri pherson o'r Panel Dyfarnu. Ar ddechrau'r gwrandawriad, bydd y Cadeirydd yn egluro'r drefn y mae'r tribiwnlys yn bwriadu ei dilyn. Mater i'r tribiwnlys fydd dewis pa drefn i'w dilyn a'r nod yw cynnal y gwrandawriad yn y ffordd fwyaf addas yn ei farn ef er mwyn egluro'r materion sydd gerbron a gweinyddu'r dyfarniad mewn ffordd gyfiawn yn gyffredinol. Bydd y tribiwnlys yn ceisio osgoi ffurfioldeb yn ei drefniadau gymaint â phosibl. Caiff gwrandawriadau tribiwnlysoedd eu recordio yn ôl disgrisiwn y tribiwnlys.
43. Gall y gwrandawriad gael ei gynnal yn Gymraeg neu Saesneg yn unol â chyfarwyddyd y tribiwnlys. Bydd y tribiwnlys, i'r graddau sy'n rhesymol ymarferol, yn ystyried ac yn gweithredu yn unol ag unrhyw ddymuniadau a nodwyd gan berson sydd wedi'i gyhuddo. Ym mhob achos, bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael os bydd unrhyw berson sy'n mynychu gwrandawriad ac yn cymryd rhan ynddo yn gofyn amdano. Bydd y tribiwnlys yn ceisio cadarnhau iaith ddewisol pob cyfranogwr cyn y gwrandawriad.
44. Bydd hawl gan y person sydd wedi'i gyhuddo i roi tystiolaeth, galw ar dystion, holi unrhyw dystion ac annerch y tribiwnlys am y dystiolaeth a phwnc y dyfarniad yn gyffredinol.
45. Gall y tribiwnlys gyfyngu ar nifer y tystion y gall y person sydd wedi'i gyhuddo alw arnynt os yw'n teimlo y byddai hynny'n helpu i weinyddu'r achos mewn ffordd effeithlon a synhwyrol. Gall tribiwnlys gyflwyno cyfyngiadau o'r fath, er enghraifft, pan fydd yn ymddangos i'r tribiwnlys na fydd y tystion dan sylw yn cyflwyno unrhyw dystiolaeth na ffeithiau newydd pwysig, neu pan fydd y person sydd wedi'i gyhuddo yn galw ar ormod o dystion i roi testimoni ynglŷn â'i gymeriad.
46. Ni all tystion eistedd yn yr oriel gyhoeddus cyn i'r tribiwnlys alw arnynt i roi tystiolaeth. Bydd man aros penodedig ar gael i'r tystion nes y byddant yn cael eu galw.
47. Gall tystiolaeth gerbron y tribiwnlys gael ei rhoi ar lafar neu, os bydd y tribiwnlys yn gorchymyn hynny, drwy affidafid neu ddatganiad ysgrifenedig. Ar unrhyw gam yn yr achos, gall y tribiwnlys orchymyn bod unrhyw berson sydd wedi gwneud datganiad ysgrifenedig yn mynychu'r gwrandawriad.
48. Gall y tribiwnlys gael unrhyw ffeithiau sy'n ymddangos yn berthnasol yn ei farn ef, hyd yn oed pe byddai'r dystiolaeth honno yn annerbyniol mewn achosion gerbron llysoedd cyfreithiol. Ni fydd y tribiwnlys yn gwrthod derbyn unrhyw dystiolaeth sy'n dderbyniol yn gyfreithiol ac sy'n berthnasol.
49. Efallai y bydd gofyn i'r person sydd wedi'i gyhuddo a thystion roi tystiolaeth ar lw neu ar gadarnhad. Gall tystion gael eu rhyddhau gyda chytundeb y person sydd wedi'i gyhuddo neu'i gynrychiolydd ar ôl iddynt roi tystiolaeth.

50. Mae'r paragraffau canlynol yn amlinellu'r drefn arferol i'w dilyn, ond gall y tribiwnlys wyro oddi wrth y drefn honno os yw'n ystyried bod hynny'n briodol.

### **Materion Rhagarweiniol**

51. Ar ôl i'r Cadeirydd esbonio'r drefn, bydd y tribiwnlys yn gyntaf yn ceisio datrys unrhyw broblemau â'r drefn neu anghydfodau sy'n codi ynglŷn ag unrhyw Gyfarwyddyd Rhestru a gafodd ei roi.

### **Cam 1 o'r Gwrandawriad - Canfod y Ffeithiau**

52. Bydd y tribiwnlys wedyn yn ceisio datrys unrhyw anghydfodau ffeithiol sy'n weddill a gafodd eu nodi yn ystod y trefniadau cyn y gwrandawriad.
53. Os oes anghydfod ynglŷn â sawl mater, gall y tribiwnlys ystyried ei bod yn fwy cyfleus ystyried yr holl faterion hynny gyda'i gilydd yn hytrach na bod y gwrandawriad yn bwrw ymlaen fesul ffaith.
54. Gall y tribiwnlys benderfynu gohirio'r achos er mwyn ystyried y cyflwyniadau a'r dystiolaeth ac wedyn bydd yn cyhoeddi ei ganfyddiadau ynglŷn â'r ffeithiau.

### **Cam 2 o'r Gwrandawriad - Penderfyniad**

55. Nesaf, bydd y tribiwnlys yn ceisio penderfynu a yw'r ffeithiau yn peri iddo ddod i'r casgliad y bu methiant i gydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod perthnasol, os nad yw'r person sy'n destun adroddiad yr Ombwdsmon wedi cyfaddef hynny.
56. Gall y tribiwnlys ddewis gohirio'r gwrandawriad ar y cam hwn er mwyn ystyried a fu methiant i gydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod perthnasol.

### **Cam 3 o'r Gwrandawriad - Camau i'w Cymryd**

57. Os bydd y tribiwnlys yn canfod y bu methiant i gydymffurfio â'r cod ymddygiad, bydd y Cadeirydd yn gofyn i glerc y tribiwnlys a oes unrhyw wybodaeth ar gael am unrhyw gamweithredu blaenorol gan yr aelod dan sylw. Bydd y clerc yn rhoi tystiolaeth ysgrifenedig o unrhyw gamweithredu blaenorol. Bydd yr Ombwdsmon yn cael ei wahodd i dynnu sylw'r tribiwnlys at unrhyw ffactorau perthnasol a ddylai gael eu hystyried. Bydd y person sy'n destun yr adroddiad (neu'i gynrychiolydd) yn cael ei wahodd i wneud cyflwyniadau ar ba gamau y dylai'r tribiwnlys eu cymryd, gan gynnwys unrhyw ffactorau lliniarol. Gall hyn ddigwydd yn ystod Cam 2 os nad yw'r tribiwnlys eisoes wedi cael ei ohirio er mwyn ystyried a fu methiant i gydymffurfio â'r cod ymddygiad.
58. Wedyn bydd y tribiwnlys yn gohirio'r gwrandawriad er mwyn ystyried a yw methiant i gydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod perthnasol yn haeddu rhybudd ynglŷn ag ymddygiad yr aelod yn y dyfodol, neu a ddylai'r aelod gael ei wahardd neu'i anghymwyso, cyn cyhoeddi ei benderfyniad. Os bydd y tribiwnlys yn penderfynu bod cosb yn briodol, gall:



- a. gwahardd yr aelod neu'i wahardd yn rhannol am gyfnod o hyd at flwyddyn neu, os yw'n fyrrach na hynny, weddill tymor y person dan sylw yn ei swydd; neu
- b. anghymwyso'r aelod rhag bod, neu rhag dod (drwy etholiad neu fel arall), yn aelod o'r awdurdod hwnnw neu unrhyw awdurdod perthnasol arall am gyfnod o hyd at bum mlynedd.

## **Penderfyniad y Tribiwnlys**

59. Gall penderfyniad tribiwnlys gael ei wneud gan fwyafrif ac mae gan y Cadeirydd bleidlais fwrw os bydd angen. Bydd y cofnod o'r penderfyniad yn nodi p'un a oedd yn benderfyniad unfrydol neu'n benderfyniad gan fwyafrif.
60. Gall y penderfyniad gael ei gyhoeddi'n llafar ar ddiwedd y gwrandawriad neu'i gadw'n ôl. Ym mhob achos, p'un a gafodd gwrandawriad ei gynnal ai peidio, bydd y penderfyniad yn cael ei gofnodi mewn dogfen sy'n cofnodi penderfyniad y tribiwnlys ac yn rhoi'r rhesymau drosto. Bydd cadeirydd y tribiwnlys yn llofnodi'r ddogfen ac yn cofnodi'r dyddiad arni. Bydd pob dogfen yn cael ei chynnwys yn y gofrestr bwrsasol cyn gynted â phosibl.
61. Os bydd dogfen yn cyfeirio at dystiolaeth a gafodd ei chlywed yn breifat yn unig, dim ond crynodeb o'r ddogfen honno fydd yn cael ei gynnwys yn y gofrestr, gan hepgor unrhyw ddeunydd yn unol â chyfarwyddyd y tribiwnlys.
62. Bydd y canlynol yn cael gwybod am benderfyniad y tribiwnlys: pwyllgor safonau'r awdurdod perthnasol (ac, os nad yw'r person yn aelod o'r awdurdod hwnnw mwyach, unrhyw awdurdod perthnasol arall y mae'n aelod ohono), y person sy'n destun yr hysbysiad, yr Ombwdsmon a'r person a wnaeth yr honiad gwreiddiol (os yw'n hysbys). Bydd copi o'r hysbysiad yn cael ei gyhoeddi mewn un neu fwy o'r papurau newydd sy'n cael eu gwerthu yn ardal yr awdurdod perthnasol dan sylw hefyd.
63. Bydd y Panel Dyfarnu hefyd yn cyhoeddi hysbysiad o'r penderfyniad ar ei wefan. Os oes angen cadw cyfrinachedd unrhyw dystiolaeth a gafodd ei chlywed yn breifat, gall y Panel wneud unrhyw newidiadau sydd eu hangen i destun yr hysbysiad.

## **Gorchmynion ar gyfer Costau a Threuliau**

64. Heblaw am baragraff 41 (methiant i fynychu gwrandawriad), ni fydd y tribiwnlys fel arfer yn gwneud gorchmyn i ddyfarnu costau a threuliau ond gall wneud gorchmyn yn erbyn person os yw o'r farn bod y person hwnnw wedi ymddwyn mewn ffordd wacsaw neu flinderus, neu'i fod wedi ymddwyn yn hollol afresymol.
65. Pan fydd y tribiwnlys yn penderfynu gwneud gorchmyn yn erbyn person, bydd y person hwnnw yn cael cyfle i wneud sylwadau yn erbyn y gorchmyn hwnnw.
66. Gall gorchmyn ofyn i'r person y cafodd ei wneud yn ei erbyn dalu naill ai swm penodol i berson arall am y costau a'r treuliau yr aeth y person arall hwnnw iddynt mewn perthynas â'r dyfarniad, neu'r holl gostau a gafodd eu hasesu (os na chytunwyd arnynt fel arall) neu ran ohonynt.

67. Bydd unrhyw gostau sy'n ofynnol o dan orchymyn o'r fath yn cael eu hasesu yn y llys sirol ar y sail safonol. Bydd llog yn cael ei godi ar unrhyw gostau a threuliau sy'n cael eu dyfarnu gan driwlynys, oni bai eu bod yn cael eu gwrthod a'u hamrywio o ganlyniad i apêl neu adolygiad, o'r pedwerydd diwrnod ar ddeg ar ôl y dyddiad dyfarnu ar y gyfradd sydd wedi'i rhagnodi ar y pryd o dan adran 69 o Ddeddf Llysoedd Sirol 1984.

## Apeliadau

68. Os bydd triwlynys yn penderfynu bod person wedi methu â chydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod perthnasol dan sylw, gall y person hwnnw ofyn am ganiatâd yr Uchel Lys i apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw neu unrhyw waharddiad, gwaharddiad rhannol neu anghymwysiad gan y triwlynys.

## Triwlynlysoedd Achos Interim

69. Os bydd yr Ombwdsmon yn teimlo y byddai hynny o fudd i'r cyhoedd, gall lunio adroddiad interim cyn iddo gwblhau ymchwiliad. Os caiff yr adroddiad ei gyfeirio at y Panel Dyfarnu, bydd "Triwlynlys Achos Interim" yn cael ei ffurfio o blith aelodau'r Panel er mwyn ei ystyried.
70. Mae trefniadau triwlynlysoedd achos interim yr un peth â threfniadau triwlynlysoedd achos, heblaw am y gwahaniaethau sy'n cael eu hesbonio isod.

## Gweithredu Cyn y Gwrandawriad

71. Os bydd y dystiolaeth prima facie yn awgrymu i'r Ombwdsmon bod:
- y person sydd wedi'i gyhuddo wedi methu â chydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod perthnasol dan sylw;
  - bod natur y methiant yn debygol o arwain at ei anghymwysio o dan adran 79(4)(b) o Ddeddf 2000;
  - y dylid gwahardd y person hwnnw ar unwaith neu'i wahardd yn rhannol er budd y cyhoedd,
- gall yr adroddiad interim gynnwys argymhelliad y dylai'r person gael ei wahardd neu'i wahardd yn rhannol rhag bod yn aelod neu'n aelod cyfetholedig o'r awdurdod perthnasol dan sylw am gyfnod o hyd at chwe mis neu (os yw'n fyrrach) weddill tymor y person yn y swydd.
72. Rhaid i adroddiad interim sy'n cynnwys argymhelliad o'r fath gael ei gyfeirio i'r Panel Dyfarnu fel y gall triwlynys wneud dyfarniad yn ei gylch.

## Penderfyniadau Triwlynlysoedd Achos Interim

73. Rhaid i driwlynlys achos interim benderfynu a ddylai'r person sydd wedi'i gyhuddo gael ei wahardd neu'i wahardd yn rhannol am gyfnod o hyd at chwe mis neu (os yw'n fyrrach) weddill tymor y person yn y swydd.

74. Bydd y tribiwnlys achos interim yn rhoi gwybod i'r person sy'n destun yr adroddiad a swyddog monitro'r awdurdod perthnasol dan sylw am ei benderfyniad. Bydd y tribiwnlys yn cymryd camau rhesymol hefyd i hysbysu'r person a wnaeth yr honiad a arweiniodd at yr ymchwiliad.
75. Os bydd y tribiwnlys achos interim yn penderfynu y dylai person gael ei wahardd neu'i wahardd yn rhannol, rhaid i'r hysbysiad roi manylion y gwaharddiad neu'r gwaharddiad rhannol a nodi ar ba ddyddiad y bydd y gwaharddiad neu'r gwaharddiad rhannol yn dechrau.
76. Nid yw penderfyniad y tribiwnlys achos interim yn atal yr Ombwdsmon rhag parhau â'r ymchwiliad.
77. Gall person sydd wedi'i wahardd neu'i wahardd yn rhannol o dan yr adran hon ofyn am ganiatâd yr Uchel Lys i apelio yn erbyn:
  - a. y gwaharddiad neu'r gwaharddiad rhannol, neu
  - b. hyd y gwaharddiad neu'r gwaharddiad rhannol.

## **I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â**

**Cyfeiriad:** Cofrestrydd y Panel  
Panel Dyfarnu Cymru  
Oak House  
Parc Cleppa  
Celtic Springs  
Casnewydd  
NP10 8BD

**Ffôn:** 03000 259 805

**E-bost:** [adjudication.panel@llyw.cymru](mailto:adjudication.panel@llyw.cymru)

**Gwefan:** <https://paneldyfarnu.llyw.cymru>